**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

30 Mawrth 2023

**Cyfyngiadau yn y data a gesglir am blant sydd wedi bod mewn gofal**

Annwyl Julie,

Diolch i chi unwaith eto am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 9 Mawrth i gefnogi ein hymchwiliad ynghylch diwygio radical ar wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

## Tystiolaeth o gyfyngiadau o ran casglu data yng Nghymru

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, buom yn trafod pa mor ddigonol yw'r data a gesglir yng Nghymru am blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Hoffwn dynnu eich sylw at beth tystiolaeth allweddol yr ydym wedi'i chasglu am gyfyngiadau casglu data yng Nghymru:

- Llythyr atom gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant mewn ymateb i'n cais am ddata am rieni geni sydd wedi bod mewn gofal a statws gofal eu plant.
- Y dystiolaeth a gawsom gan gynrychiolwyr addysg uwch ar 2 Mawrth. Gweler paragraffau 298 i 311 a 343 i 350 yn benodol.
- Tabl o friff ymchwil diweddar a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan Ymchwil y Senedd yn crynhoi data a gesglir yn Lloegr ond na chesglir yng Nghymru (gweler atodiad 1).

Bwriedir cyhoeddi ein hadroddiad terfynol ym mis Mai. Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi yn y cyfamser.

## Canlyniad adolygiad y cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal

Clywsom gan randdeiliaid yn ystod trafodaethau grwpiau ffocws fod Llywodraeth Cymru wedi cynnull adolygiad o'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddiweddar i ystyried casglu data yn benodol. A fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion inni am yr adolygiad hwnnw, gan gynnwys pa newidiadau (os o gwbl) y cytunwyd arnynt a sut y cânt eu datblygu?

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallem gael y wybodaeth honno erbyn dydd Iau 4 Mai fan bellaf i'n cefnogi wrth i ni gwblhau ein hadroddiad. Mae croeso i chi gysylltu â chlercod ein Pwyllgor os bydd anhawster o ran anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad hwn.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad 1

| Data ar gael yn Lloegr, nid yng Nghymru |
|---|
| **Gofal cymdeithasol:** Plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr, gan gynnwys mabwysiadu,<br>▪ Cyfraddau troseddu<br>▪ Camddefnyddio sylweddau<br>▪ Canlyniadau iechyd a datblygiad<br>▪ Iechyd emosiynol ac ymddygiadol<br>▪ Plant ar goll heb awdurdod |
| **Addysg cyn 16 oed:** Canlyniadau ar gyfer plant mewn angen, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn Lloegr.<br>▪ anghenion addysgol arbennig<br>▪ cyrchfannau o'r ysgol<br>▪ absenoldeb o'r ysgol<br>▪ gwaharddiadau parhaol ac atal dros dro o'r ysgol<br>▪ math o ysgol a fynychir |
| **Gadael gofal:** Ystadegau cyffredinol ynghylch plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr sy'n dangos ar gyfer y rhai 19-21 oed yn gadael gofal yn 2022:<br>▪ Roedd 29 y cant mewn addysg (6 y cant mewn addysg uwch, 22 y cant mewn addysg heblaw am addysg uwch);<br>▪ Dywedodd 38 y cant nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (o'i gymharu â thua 11 y cant o'r holl bobl ifanc rhwng 19 a 21 oed). |
| **Addysg uwch:** Mae'r Adran Addysg yn cyhoeddi ystadegau Lloegr ar ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch, sy'n cynnwys symud ymlaen i addysg uwch ar gyfer plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal. |
| **Y gweithlu:** Y gweithlu gwaith cymdeithasol plant Casgliad statudol blynyddol ar gyfer data ynghylch y gweithlu gwaith cymdeithasol plant.<br>▪ nifer y gweithwyr cymdeithasol<br>▪ nifer y dechreuwyr a'r ymadawyr<br>▪ cyfradd swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol<br>▪ cyfradd trosiant gweithwyr cymdeithasol<br>▪ absenoldeb gweithwyr cymdeithasol oherwydd salwch<br>▪ nifer y gweithwyr asiantaeth<br>▪ llwyth achosion ar gyfartaledd |